

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 27 Tachwedd, 2017 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mrs S Edwards, (Benllech B), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mr D W Roberts, (Brynteg).

106 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mrs C A Hulme, (Benllech B), Mr G Owen, (Llanbedrgoch), Mr I Williams, (Benllech B).

107 DATGANIADAU O DDIDDORDEB.

Ni dderbyniwyd unrhyw Ddatganiadau o Ddiddordeb.

108 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 23ain o Hydref 2017.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD.

109 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan aelodau – amrywiol faterion oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

110 CYMDEITHAS ADLONANT CYLCH BENLLECH.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan Gymdeithas Adloniant Cylch Benllech yn diolch am y cynnig o gymorth ariannol tuag at sefydlu maes chwarae bob tywydd. Fodd bynnag roeddent wedi penderfynnu yn erbyn symud ymlaen a'r fenter.

111 ARCHWILYDD MEWNOL NEWYDD.

Cyflwynwyd – epost gan Gymdeithas Clercod Gwynedd a Mon yn hysbysu fod Ms Eluned Fon Jones, Rheolwr Archwilio i Gyngor Sir Gwynedd wedi cytuno i ymgymeryd a gwaith Archwilio Mewnol i Gynghorau Tref a Chymdeithas Ynys Mon. Mae telerau i'w cytuno yn uniongyrchol gyda Ms Luned Fon Jones.

PENDERFYNWYD – cytuno i ofyn i Ms Luned Fon Jones weithredu fel Archwiliwr Mewnol i'r Cyngor Cymuned ac i drafod ffioedd perthnasol gyda hi.

112 UN LLAIS CYMRU – FFIOEDD CLADDU PLANT.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - cyswllt gan Un Llais Cymru yn tynnu sylw at yr anghysondeb mewn ffioedd claddu plant drwy Gymru mewn Mynwentydd Cyhoeddus yn dilyn ymrywiad gan y Prif Weinidog ym mis Mawrth eleni i edrych ar y sefyllfa. Cadarnhaodd y Clerc fod arolwg perthnasol wedi ei chwblhau ar ran y Cyngor Cymuned.

113 CYNGOR SIR YNYS MON – PWYLLGOR SAFONAU.

Cyflwynwyd – epost gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn tynnu sylw at yr angen i gynyddu hyfforddiant i aelodau a chlercod Cynghorau Tref a Chymuned. Roedd awgrym hefyd y dylai pob Cyngor neilltuo arian perthnasol i hyfforddiant wrth benodi ei cyllideb a sefydlu swm presept ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/2019.

114 YSGOL GORONWY OWEN.

Cyflwynwyd - llythyr diolch gan yr Ysgol yn cydnabod derbyn rhodd ariannol gan y Cyngor Cymuned tuag at brynu offer garddio.

115 COMISIWN FFINIAU I GYMRU.

Cyflwynwyd – Cynigion Cychwynnol y Comisiwn yn dilyn Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru. Gofynnwyd am sylwadau erbyn yr 11 o Ragfyr 2018 ar yr hwyraf.

PENDERFYNWYD – ar ol pleidlais y Cadeirydd, i wrthwynebu y bwriad i greu etholaeth newydd yn cynnwys Ynys Mon a Bangor.

116 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL.

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol drafft y Panel (trafodwyd y mesurau bwriedig ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn unig). Bwriedir gwneud taliadau ariannol o £150 yr aelod yn flynyddol yn ogystal a thaliadau ychwanegol i'r Cadeirydd ac i fyny i bum aelod sydd a dyletswyddau arbennig.

PENDERFYNWYD – gwrthod y mesurau bwriedig newydd. Teimlad cryf yr aelodau oedd ei bod yn fraind i gael gwasanaethu eu cymuned.

TALIADAU A CHYFRIFON

117 BILIAU.

| | | |
|--------------------|-----------------------|--------|
| Edwards Accounting | Paratoi gwybodaeth | £30-00 |
| Eira Fon Parry | Gwasanaeth Cyfieithu | £56-00 |
| Lingo Cyf | Hurio offer cyfieithu | £36-00 |
| The Poppy Appeal | Torch Sul y Cofio | £25-00 |

118 CYFRIFON.

Cyflwynwyd – cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) yn Hydref 2017.

PENDERFYNWYD – i nodi'r cyfrif a chytuno'r taliadau.

119 CYLLIDEB Y CYNGOR.

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o 1 Ebrill 2017 i ddiwedd Hydref 2017.

PENDERFYNWYD – i nodi a chytuno'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

120 YMDDIRIEDOLAETH BYWYD GWYLLT GOGLEDD CYMRU.

Eglurodd y Clerc ei fod wedi derbyn galwad ffon gan Deio Jones a oedd yn cynorthwyo'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt i sefydlu cais am arian o dan Gynllun Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru. Bwriad y cais

yw datblygu prosiect amgylcheddol yn ardal Lligwy. Roedd Deio Jones yn hyderus y buasai cynlluniau y Cyngor Cymuned megis Bagiau Benllech, Ffynhonell dwr yfed ar y Traeth ac addurno'r pentref gyda basgedi blodau yn cael ei derbyn fel rhan o'r prosiect. Addawodd y buasai yn rhoi'r awgrymiadau yma ymlaen mewn cyfarfod i'w gynnal yn fuan yn Llangefni ac y buasai yn dychwelyd at y Cyngor yn y man.

121 SEFYDLU GRWP CYMUNEDOL YM MENLLECH.

Trafodwyd y pwnc o sefydlu Grwp Cymunedol ym Menllech mewn ymdrech i sicrhau maes chwarae bob tywydd i ieuencid yr ardal. Gwnaed cais i Gymdeithas Adloniant Benllech ddechrau 2017 i ystyried defnyddio yr hen gyrtiau tennis i'r pwrpas yma, fodd bynnag daeth ateb negyddol yn yr wythnos ddiwethaf er fod y Cyngor Cymuned wedi addo cymorth ariannol o £6,000 yn syth a swm fwy sylweddol yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae teimladau cryf yn y pentref gan rieni sydd yn teimlo nad oes digon o ymdrech yn cael ei wneud yn y cyfeiriad yma ac mae galw am sefydlu Grwp Cymunedol i dynnu pawb at ei gilydd i yrru'r maen i'r wal.

PENDERFYNWYD – gwneud ymdrech eto i sefydlu math o bartneriaeth gyda'r Gymdeithas Adloniant i ddefnyddio tirwedd y cyrtiau tenis. Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr cryf i'r Gymdeithas Adloniant yn eu hatgoffa fod eu cyfansoddiad, sydd wedi eu gofrestru fel elusen, yn datgan fod angen darparu “cyfle chwaraeon i bob oedran” yn y pentref a'r ardal gyfagos.

122 YSGOL GORONWY OWEN.

Yn dilyn colled y ddiweddar Miss Nia Williams, roedd angen dewis cynrychiolydd newydd y Cyngor Cymuned ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Goronwy Owen.

PENDERFYNWYD – etholwyd Mr Kevin Fenn Griffiths.

123 PWYLLGORAU'R CYNGOR CYMUNED.

Eto, fel yr eitem uchod roedd angen llenwi bylchau ar Bwyllgorau'r Fynwent a Personel a chynrychiolydd i Neuadd Goffa Goronwy Owen.

PENDERFYNWYD – etholwyd y canlynol ; Y Fynwent – Mr G Harker-Roberts, Personel - Mrs Sioned Edwards, Neuadd Goffa Goronwy Owen – Mr D W Roberts.

124 CYLLIDEB 2018/2019.

Gan fod sefydlu gwariant a phenodi'r presept yn agosau fe drafodwyd yn gyffredinol wariant cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/2019. Eglurodd y Clerc fod gwariant sylweddol wedi bod ar uwchraddio'r sustem Teledu Cylch Cyfyng dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag dim ond costau cynnal a chadw fydd yn bodoli yn ystod y flwyddyn nesaf. I'r gwrthwyneb bydd costau cyflogi yn cynnyddu gan fod oriau y Clerc yn ymestyn a bydd angen cyflogi ceidwad ar y Toiledau. Hefyd mae'r Cyngor yn ffodus gan fod arian grant a chymorthdal yn ddisgwyliedig gan y Co-op a Heddlu Gogledd Cymru.

Trafododd yr aelodau wariant bwriedig a chytunwyd mae y peth pwysicaf i ganolbwyntio arno oedd cael maes chwarae addas i ieuenctid y pentref. Roeddent yn hynod siomedig at agwedd y Gymdeithas Adloniant parthed addasu'r hen gyrtiau tennis i gae chwarae gyda gwyneb bob tywydd. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Gymdeithas i ddarganfod beth oedd y rhwystrau a gweld os oedd yn bosib i'r Cyngor roi cymorth ymarferol iddynt. Mae teimladau cryf yn y pentref nad oes cyfleusterau adloniant i ieuenctid ac mae'n angenrheidiol newid y sefyllfa bresennol.

PENDERFYNWYD – y buasai gwariant cyfalaf y Cyngor 2018 /2019 yn canolbwyntio ar ymdrech i sefydlu maes chwarae bob tywydd.

125 CAER BERLLAN.

Eglurodd y Clerc y sefyllfa gyda cael amcan brisiau parthed y gat newydd rhwng y ddwy gat saff yn y maes chwarae. Roedd pris o £1398 a TAW wedi dod gan MacVenture. Ni ddaeth unrhyw ymateb gan Dewi Hughes na Kelvin Jones a chafwyd pris o £691 a TAW gan “Anglesey Fabrication Ltd”.

PENDERFYNWYD – i dderbyn pris “Anglesey Fabrication Ltd”.

126 TOILEDAU BENLLECH.

Cafwyd ymateb gan Gyngor Sir Ynys Mon i'r pwyntiau a godwyd yn dilyn derbyn y Brydles Ddrafft i Doiledau'r Sgwar a'r Traeth ym Menllech.

1. Mae'r gwasanaeth yn fodlon i newid term y cynnig o 125 mlynedd i'r 60 mlynedd gwreiddiol.

2. Mae'r gwasanaeth wedi cytuno i'r ad-daliad Treth Fusnes yn barhaol ac nid dros y 10 mlynedd cyntaf. Fodd bynnag bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned dalu a chael ad-daliad gan y Cyngor Sir.
3. Mae'n angenrheidiol cael y cymal fod y toiled yn agored ar hyd y flwyddyn er amddiffyn statws y "fflag las" petai canllawiau yn digwydd newid yn y dyfodol. Yn ymarferol gall y Cyngor Cymuned agor am pa gyfnod y mae'n dymuno.

127 APWYNTIAD CLERC A SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL.

Cyflwynwyd hysbyseb drafft am y Swydd uchod ynghyd a Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person i'w hystyried gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD – cytuno gyda'r hysbyseb a'r atodiadau, symud ymlaen i hysbysu ar wefan y Cyngor Cymuned, Cyngor Sir Ynys Mon, "Fish for Jobs", y Llyfrgell, papurau bro a hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned.

128 CAIS GAN AELOD AM GYFNOD O ABSENOLDEB O GYFARFODYDD.

Ni thrafodwyd yr eitem hon gan fod yr aelod wedi goresgyn y sefyllfa ac nid oedd mwyach yn berthnasol.

CYNLLUNIO

129 CEISIADAU.

PENDERFYNWYD ar y ceisiadaucynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn :-

1. Caniatau :

| | |
|------------|---|
| 30C818 | Arlan, Tynyngogl |
| 30C335K/VA | Porthllongdy Farm Caravan Site, Red Wharf Bay, Pentraeth. |

2. Gadael i Swyddogion yr Adran Gynllunio :

| | |
|---------|-------------------------------------|
| 30C359L | Plas Uchaf Caravan Site, Tynyngogl. |
|---------|-------------------------------------|

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-45 yr hwyr.

